# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Ffrindiau Bach Trimsaran**

**Canolfan Blynyddoedd Cynnar Dechrau'n Deg**
**Ysgol Gymunedol Trimsaran**
**Heol Waun y Clun**
**Trimsaran**
**SA17 4BE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Iau, 11 Hydref 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Ffrindiau Bach Trimsaran yn rhoi gofal sesiynol i hyd at 19 o blant rhwng 2 a 3 oed. Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 11.30pm a rhwng 12.45pm a 3.15pm. Cofrestrodd ag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2014. Rhoddir gofal yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli o fewn y ganolfan Dechrau'n Deg yn Ysgol Gynradd Trimsaran. Hayley Davies yw'r unigolyn cyfrifol ar ran y darparwr cofrestredig, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, a Sarah Roanna Howard yw'r person â chyfrifoldeb.

### Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn Ffrindiau Bach yn hyderus ac yn hapus, ac mae ganddynt gydberthynas dda â'u gofalwyr. Maent yn mwynhau chwarae'n rhydd yn arbennig, ac mae'r staff yn eu helpu i ddatblygu eu chwarae eu hunain. Maent yn cael gofal gan staff caredig, meithringar a chymwys. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau'n annibynnol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, ac mae'r prosesau arwain a rheoli yn dda yn gyffredinol.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi symud i adeilad newydd a adeiladwyd yn bwrpasol ar yr un safle.

Yn ystod y cyfnod arolygu, anfonodd yr unigolyn cyfrifol gopi o adroddiad diweddaraf y gwasanaeth ar ansawdd y gofal.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â gofal a datblygu, yr amgylchedd ac arwain a rheoli. Maent wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus yn y gwasanaeth hwn ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Gallant wneud eu dewisiadau eu hunain. Mae ganddynt yr hyder i gyfleu eu profiadau a'u dewisiadau, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel. Mae'r plant wedi ymgartrefu, ac maent yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r staff.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yn Ffrindiau Bach Trimsaran ddewis. Gallant gyfathrebu â'i gilydd a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac mae'r oedolion hynny'n gwrando arnynt.

Roedd gan y plant ddewis da o weithgareddau, ac roeddent yn gallu gwneud dewisiadau drostynt eu hunain yn ystod chwarae rhydd. Er enghraifft, gwelsom rai o'r plant yn mynd i'r ardal awyr agored yn ddigyfyngiad tra bod plant eraill wedi penderfynu lliwio neu chwarae â thoes chwarae dan do. Roedd gan y plant ddewis yn ystod chwarae rhydd, a dilynodd y staff eu harweiniad. Er enghraifft, roedd plentyn am liwio, a gwnaeth aelod o'r staff eistedd gyda'r plentyn a rhoi cymorth yn ôl yr angen. Yn ystod gweithgareddau â ffocws, megis amser cylch, roedd gan y plant ddewis hefyd. Er enghraifft, dewisodd y plant y caneuon roeddent am eu canu o luniau. Yn ystod amser cylch, nid oedd un plentyn am sefyll i ganu un gân, a chafodd ganu ar ei eistedd.

Mae gan y plant yn y gwasanaeth hwn lais da.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn y gwasanaeth hwn wedi ymgartrefu'n dda, yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni, yn hapus ac yn ddigyffro.

Roedd y plant yn ymgysylltu â'u chwarae a'u gweithgareddau ac yn chwarae'n hapus gyda'r teganau yng nghwmni ei gilydd a'r staff. Roedd y plant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn datblygu cydberthynas dda â'r plant eraill a'r staff. Er enghraifft, aeth dau blentyn at y staff i gael eu cofleidio tra oeddent yn gwrando ar stori. Gwenodd un plentyn llawn balchder pan gafodd ei ganmol am gyfrif y ffrwythau, a gwnaeth plentyn arall redeg at ei riant ar ddiwedd y sesiwn a dweud 'Mammy, sticker' ar ôl cael ei ganmol am fod yn dda a'i enwi'n Helpwr y Dydd.

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y gwasanaeth hwn. Maent yn hapus iawn ac yn teimlo'n gartrefol.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Roedd y plant yn trin ei gilydd yn garedig ac yn parchu ei gilydd a'r adnoddau a oedd ar gael iddynt.

Roedd y plant yn teimlo'n gartrefol ac yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd a'r staff ar y cyfan. Yn gyffredinol, nid oedd y plant yn dweud 'os gwelwch yn dda' na 'diolch' ond, o bryd i'w gilydd, pan gawsant eu hannog, gwnaethant ymateb yn gadarnhaol. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, ar ôl cael eu hannog, dywedodd y plant i gyd 'Diolch yn fawr' i helpwr y dydd am fod yn helpwr da. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda yn ystod ein hymweliad. Roedd y plant yn helpu ei gilydd ac yn ystyriol, ac roedd rhai o'r plant yn rhyngweithio'n hynod o dda â'i gilydd. Er enghraifft, ar ddiwedd y sesiwn pan oedd y plant yn gwisgo eu cotiau, tynnodd un plentyn sticer oddi arno cyn rhoi ei 'hoody' amdano, a gwnaeth plentyn arall ei helpu, heb gael ei annog i wneud hynny, drwy ddal y llewys i lawr. Ceisiodd un plentyn ddod â threic i mewn, a gwnaeth plentyn arall bwyntio a dweud 'Mas, dim tu fewn'. Yn ystod amser byrbryd, siaradodd y plant â'r staff wrth iddynt eistedd i fwyta eu bwyd, gan sôn am yr hyn roeddent wedi'i fwyta i frecwast.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn ag eraill.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac yn cael hwyl dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd y plant yn brysur ac yn ymgysylltu â'u chwarae rhydd a'r gweithgareddau a oedd yn cael eu harwain gan oedolion drwy gydol ein hymweliad, ac roeddent yn symud yn rhydd rhwng y mannau dan do a'r awyr agored. Gwelsom blant yn mwynhau'r gweithgareddau a oedd yn cael eu harwain gan oedolion a chwarae rhydd, megis chwarae â cheir, toes chwarae a jig-sos, cegin fwd, pêl-rwyd, chwarae dŵr a gweithgaredd paru siapiau. Gwelsom blant yn chwerthin ac yn cael hwyl. Er enghraifft, defnyddiodd dau blentyn ddŵr o'r gegin yn yr awyr agored i ddyfrio'r hadau glaswellt a ddodwyd yn ddiweddar. Roeddent yn gwenu ac yn chwerthin ac yn amlwg yn falch ohonynt eu hunain. Roedd y plant yn gwneud pethau ohonynt eu hunain ac yn ymgolli'n llwyr yn y chwarae rhydd o'u dewis. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth ffotograffig o'r plant yn gwenu ar long gardbord wrth iddynt chwarae môr-ladron yn chwilio am drysor.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n briodol i'w hoedran, ac mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol drwy'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig. Er enghraifft, gwelsom fod plant wedi ymgolli'n llwyr mewn chwarae rôl wrth iddynt chwarae â dŵr yn agos at y gegin yn yr awyr agored. Gwelsom blant yn paru lliwiau a siapiau yn hyderus, yn enwi ffrwythau gwahanol yn

ystod amser byrbryd ac yn ymarfer eu sgiliau echddygol manwl gan ddefnyddio siswrn. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, roedd rhai cyfleoedd yn cael eu colli i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, nid oedd y plant yn arllwys llaeth na dŵr i mewn i'w cwpanau eu hunain yn gyffredinol, ac nid oeddent yn cael y cyfle i roi iogwrt yn eu powlenni. Daethpwyd â bwyd i'r byrddau ar blatiau. Edrychodd y plant ar luniau laminedig yn ystod amser cylch, ac roeddent yn gallu dewis ac enwi'r caneuon cyfatebol.

Mae'r plant yn datblygu. Er hynny, mae rhai cyfleoedd yn cael eu colli.

## 2. Gofal a Datblygiad

**Crynodeb**

Mae'r staff yn ymarferwyr brwdfrydig ac effeithiol sydd wedi'u hysgogi. Gan amlaf, maent yn gyson wrth ddilyn polisïau a gweithdrefnau er mwyn helpu'r plant i ddatblygu a'u cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn deall anghenion unigol y plant yn dda ac yn diwallu'r anghenion hyn yn effeithiol.

**Ein canfyddiadau**

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn gweithredu amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oedd ganddynt bryderon ynghylch plentyn yn eu gofal. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r plant a'u bod yn gwybod pwy oedd y person dynodedig ar gyfer diogelu. Gwnaethom arsylwi ar blant yn chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd yn ystod ein hymweliad. Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo byrbrydau iach, a oedd yn cynnwys ffrwythau a thost. Yn ystod ein hymweliad, gwnaeth y staff sicrhau bod yr holl blant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl bod i'r toiled. Rhoddodd y staff ffrwyth ar y matiau bwrdd laminedig er mwyn i'r plant ei fwyta gyda'u bysedd. Gwelsom un aelod o'r staff yn dilyn y weithdrefn a nodir yn y polisi wrth newid cewynnau.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac iach yn effeithiol.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn siarad â'r plant ar lefel llygaid, gan ailadrodd brawddegau'n aml, ac mae pwyslais ar ddatblygu lleferydd ac iaith.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn, ac roeddent yn talu sylw iddynt ac yn gwrando arnynt yn dda. Gwnaeth un aelod o'r staff eistedd gyda phlentyn a chael trafodaeth hir ag ef am wyliau. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, roedd dau fwrdd i'r plant eistedd wrthynt; eisteddodd plentyn ar gadair wrth un bwrdd, a gwnaeth aelod o'r staff ddweud "No, sit there" a phwyntio at y bwrdd arall heb roi esboniad. Yn ystod amser stori, gwelsom y staff yn rhyngweithio'n hyfryd â'r plant, gan ddod â'r stori'n fyw ac esbonio y gall cimwch binsio. Roedd y staff yn canmol y plant yn aml iawn ac yn defnyddio cymysgedd o ddulliau gwahanol, gan gynnwys defnyddio sticeri. Clywsom aelod o'r staff yn dweud "good boy" wrth i blentyn ifanc dorri papur â siswrn, ac wrth i hyder y plentyn ddatblygu, gwelsom y plentyn yn gwenu ac yn dod yn fwyfwy eiddgar, ac ymunodd plentyn arall â nhw ar ôl ychydig.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

Cafodd chwarae wedi'i arwain gan y plant eu hunain ei gyfoethogi wrth i'r staff ofyn cwestiynau penagored er mwyn gwella dealltwriaeth a phrofiadau'r plant.
Gwnaeth rhai o'r staff wella datblygiad mathemategol a llythrennedd y plant yn effeithiol hefyd yn ystod amser cylch. Gwnaeth y staff ailadrodd geiriau a brawddegau'n aml hefyd er mwyn cyflwyno'r plant i eirfa newydd neu anghyfarwydd. Er enghraifft, Bili Broga, llyfr mawr. Tra oedd aelod o'r staff yn yr awyr agored, gwnaeth annog y plant i gyfrif i 10 wrth iddynt roi'r bêl drwy'r cylch pêl-rwyd, a thrafododd y cysyniad o fach, canolig a mawr gyda'r plant hefyd wrth iddynt chwarae â sosbannau. Yn ystod amser cylch, gwnaeth y staff atgyfnerthu siapiau a lliwiau wrth ganu am yr enfys. Roedd y staff yn cynllunio bob wythnos ar gyfer darpariaeth barhaus, darpariaeth wedi'i chyfoethogi a Core Vocab, sef rhaglen i ddatblygu geirfa'r plant. Mae gofal yn cael ei roi drwy gyfrwng y Gymraeg, ond gwnaeth y staff hefyd ailadrodd geiriau a brawddegau yn Saesneg er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn deall. Roedd yr arweinwyr a'r staff yn darparu'r 'cynnig rhagweithiol' mewn perthynas â'r Gymraeg. Daeth y staff ag eitemau i'r bwrdd ar gyfer y plant yn ystod amser byrbryd. Er enghraifft, rhoddodd y staff iogwrt yn eu powlenni, ac er eu bod yn caniatáu i rai o'r plant roi eu dwylo ar y jwg i'w helpu i arllwys llaeth neu ddŵr i mewn i gwpanau, roedd yn dasg a gafodd ei chwblhau gan y staff yn bennaf. Roedd y staff wedi creu cornel 'o dan y môr' er mwyn cyfoethogi thema'r tymor, ac roedd yn cynnwys llong a wnaed o gardbord, cist drysor a chornel wisgo. Gwelsom blant yn mwynhau darllen llyfrau am greaduriaid a oedd yn byw o dan y môr, ac roeddent yn mwynhau'r awyr agored pan oedd y llong môr-ladron yn cael ei defnyddio ar gyfer chwarae rôl.

Mae'r staff yn effeithlon wrth hybu chwarae a dysgu'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Mae'r amgylchedd yn cynnig digon o le i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored, ac mae hefyd yn eu galluogi i symud o'u gwirfodd rhwng gweithgareddau. Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleusterau ac adnoddau addas.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân.

Roedd y safle'n ddiogel. Roedd prif fynedfa'r ganolfan yn ddiogel iawn ac yn cynnwys clo electronig. Roedd gofyn i ymwelwyr â'r gwasanaeth lofnodi yn y dderbynfa, ac ar ôl iddynt wneud hynny, roedd aelod o'r staff yn agor y drws diogel i'r ystafell chwarae. Roedd arweinwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod ymwelwyr hefyd yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Roedd y gwasanaeth yn cymryd rhan yn yr ymarferion tân a gafodd eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer y campws cyfan. Fodd bynnag, nid oedd enwau'r plant a oedd yn bresennol wedi'u cynnwys ar y cofnod. Roedd y staff wedi cynnal asesiadau risg ar gyfer y gwasanaeth, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n barhaus. Roedd y staff hefyd yn sicrhau bod y gweithdrefnau diogelwch yn cael eu dilyn ac yn cofnodi manylion yn unol â hynny. Fodd bynnag, er bod y staff wedi cofnodi tymheredd yr oergell, nid wnaethant roi gwybod bod y tymheredd yn uwch na'r arfer nac ymchwilio i'r rhesymau dros hynny. Roedd yr arweinwyr yn cadw matrics er mwyn cadw golwg ar yr holl archwiliadau cynnal a chadw angenrheidiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn dda ar y cyfan.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion.

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd lliwgar sy'n ystyriol o blant. Roedd y staff wedi addurno'r waliau a'r corneli dysgu mewn ffordd a oedd yn gwella dysgu'r plant. Roedd amrywiaeth dda o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt. Roedd y byrddau a'r cadeiriau yn briodol i gam datblygu'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod cyflenwad da o adnoddau priodol er mwyn i'r staff ddiwallu anghenion y plant yn brydlon, megis hancesi papur ac adnoddau newid cewynnau. Roedd yr ardal awyr agored yn cynnwys teganau a chyfarpar addas i'r plant, ond roedd yr arweinwyr wedi nodi bod angen datblygu'r ardal hon.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas iawn.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar sy'n addas i anghenion a diddordebau'r plant.

Roedd yr arweinwyr wedi cyfoethogi dysgu'r plant gydag arddangosfeydd a oedd wedi'u cynllunio'n dda ac o ansawdd da, yn ogystal ag ardaloedd chwarae rôl. Y thema bresennol oedd 'o dan y môr', ac roedd y staff wedi creu ardal ddysgu newydd er mwyn cyfoethogi dysgu'r plant. Roedd yr adnoddau o ansawdd uchel ac mewn cyflwr da iawn. Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn o ansawdd da a maint priodol i'r plant, gan gynnwys soffas, bwrdd a chadeiriau.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd uchel.

## 4. Arwain a Rheoli

**Crynodeb**

Mae prosesau arwain y gwasanaeth yn dda. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ar y cyfan. Mae'r datganiad o ddiben yn gynhwysfawr ac yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth. Mae partneriaethau da â'r rhieni a'r gymuned.

**Ein canfyddiadau**

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan unigolyn cyfrifol a rhagweithiol, sydd â dealltwriaeth dda o'r rheoliadau. Mae'r arweinwyr wedi llunio dogfennaeth dda er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth yn esmwyth a sicrhau mwy o arfer da.

Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn nodi nodau ac amcanion cyffredinol y gwasanaeth a'i fod yn rhoi darlun clir o'r hyn y mae'n ei ddarparu. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau dwyieithog yn gynhwysfawr ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn rhoi gwybod i AGC yn rheolaidd am ddigwyddiadau. Er enghraifft, cawsom wybod bod y person â chyfrifoldeb wedi newid dros dro a bod y person â chyfrifoldeb wedi newid yn barhaol wedi hynny. Roedd dogfennaeth yn nodi damweiniau ar gael, ac roedd rhieni wedi llofnodi'r cofnodion. Fodd bynnag, nid oedd rhywfaint o wybodaeth gyfrinachol am ddiogelu yn cael ei chadw mor ddiogel â phosibl bob amser. Roedd yr arweinwyr wedi cael y wybodaeth angenrheidiol am y plant yn eu gofal, ac roedd y wybodaeth hon yn cynnwys cydsyniadau'r rhieni mewn perthynas â nifer o faterion, megis rhoi eli haul ar eu plant, ffotograffau, mynd â'u plant oddi ar y safle, arsylwadau ac asesiadau.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau presennol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol ac yn creu diwylliant myfyriol o adolygu a gwella parhaus, gan gynnwys y staff, y rhieni a'r plant.

Ers i'r arweinydd gofrestru, roedd wedi datblygu'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio ardaloedd dysgu a oedd yn hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen. Roedd arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu effeithiol wedi'u creu'n llwyddiannus. Roedd yr arweinwyr wedi bod yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu yn barhaus, ac yn ystod y broses arolygu, anfonodd yr unigolyn cyfrifol gopi o'r adroddiad ar ansawdd y gofal i AGC. Roedd yr arweinwyr yn ceisio gwella eu gwasanaeth yn barhaus, ac roedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu'r ardal awyr agored.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod nifer ddigonol o staff cymwys ar gael i'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn helpu'r tîm drwy sicrhau bod nifer ddigonol o staff ar gael, ac roedd tystiolaeth yn dangos bod y gwasanaeth yn bodloni'r gymhareb bob amser neu'n rhagori ar y cymarebau gofynnol yn aml. Gwelsom fod y staff yn dilyn polisïau'r gwasanaeth ar y cyfan a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwnaethom samplu ffeiliau tri aelod o'r staff, ac roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod tystysgrifau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddilys. Roedd rhywfaint o'r ddogfennaeth yn ymwneud â'r staff yn cael ei chadw yn y swyddfa ganolog. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a'u harfarnu'n flynyddol. Fodd bynnag, roedd angen diwygio'r ffurflenni er mwyn gwahaniaethu rhwng goruchwylio ac arfarnu.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Roedd y staff yn rhoi adborth ar lafar i'r rhieni bob dydd.

Roedd gan y staff gydberthnasau da â'r rhieni, y gofalwyr, Dechrau'n Deg a'r ysgol. Roeddent yn rhoi gwybod i'r rhieni a'r gofalwyr am lesiant eu plant yn gyffredinol ac yn rhoi gwybodaeth iddynt hefyd am y thema. Er enghraifft, gwelsom fod y plant wedi dod ag eitemau a oedd yn dechrau gyda llythyren yr wythnos ac a oedd o liw'r wythnos i'r gwasanaeth, a chafodd y rheini eu harddangos yn agos at y fynedfa. Roedd sylwadau'r rhieni yn gadarnhaol yn yr holiaduron a gafwyd. Roedd gan y gwasanaeth bartneriaethau da â'r rhieni, personél Dechrau'n Deg, yr ymwelwyr iechyd a'r ysgol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y plant a'r staff a oedd yn bresennol yn ystod y sesiwn yn y prynhawn wedi cael eu gwahodd i wasanaeth yr ysgol am fod y pennaeth yn ymddeol, ac roedd y staff a oedd wedi gweithio yn y cylch chwarae yn y gorffennol yn bresennol hefyd.

Mae'r partneriaethau'n dda.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Rhoddwyd gwybod i'r gwasanaeth nad oedd yn cydymffurfio â Rheoliad 22 (20) (c) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 am nad oedd wedi cadw cofnodion ysgrifenedig o ddigwyddiadau sylweddol. Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â hynny.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau;

- bod y staff yn atgoffa'r plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch;
- bod sgiliau annibyniaeth y plant yn cael eu datblygu ymhellach;
- bod y staff yn rhoi gwybod pan oedd tymheredd yr oergell yn uchel yn brydlon;
- bod yr ardal awyr agored yn cael ei datblygu ymhellach;
- bod yr holl gofnodion cyfrinachol yn cael eu cloi mewn cabinet bob amser;
- bod enwau'r plant sy'n bresennol yn ystod ymarferion tân yn cael eu cofnodi;
- bod copïau o'r holl ddogfennaeth berthnasol ar gael yn ffeiliau'r staff;
- bod gwahaniaeth amlwg rhwng goruchwylio ac arfarnu blynyddol;
- bod y plant yn bwyta ffrwythau o bowlenni neu blatiau yn hytrach na'r matiau bwrdd laminedig.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 18 Gorffennaf 2018 am gyfanswm o bum awr a hanner;
- Rhoddwyd adborth i'r unigolion cyfrifol dros y ffôn ar 20 Gorffennaf 2018;
- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- Gwnaethom weld y safle;
- Gwnaethom arsylwi ar ymarfer a chwblhau arsylwadau;
- Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, y person â chyfrifoldeb, plant, rhieni a staff.

.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Hayley Davies** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sarah Roanna Howard** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9.00am a 11.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>**Rhwng 12.45pm a 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Gorffennaf 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **18 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy.Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |